CaSE

Campaign for Science and Engineering



# Canllaw CaSE i Ymchwil a Datblygu ar Garreg y Drws yng Nghymru

Mae 72% o bobl o’r farn ei bod hi’n bwysig i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu yng Nghymru

British Heart Foundation Cymru

CANCER RESEARCH UK

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

CATAPULT Compound Semiconductor Applications

UKCEH Our planet. Decoded.

Cefnogwyd y gwaith hwn gan Wellcome [318810/Z/24/Z] a noddwyr ein prosiect

# Mae Ymchwil a Datblygu yn helpu i fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig i bobl yng Nghymru

Mae buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu (Y&D) o fudd i bobl yn eich ardal leol, ledled Cymru a ledled y byd. Mae'r cyhoedd yn credu bod gan Y&D rôl hanfodol i'w chwarae wrth wella'r GIG, cryfhau seilwaith, tyfu'r economi, a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol mawr.

Mae polau newydd yng Nghymru yn dangos bod tua thri chwarter yn credu ei bod hi'n bwysig i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn Y&D – ac mae tua hanner eisiau clywed am Y&D yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd.

Gall ymgeiswyr y Senedd harneisio'r awydd hwn ymhlith pleidleiswyr trwy hyrwyddo Y&D yn ystod yr ymgyrch etholiadol ac yn y Senedd nesaf.

Mae Campaign for Science and Engineering (CaSE) a noddwyr ein prosiect wedi datblygu'r canllaw hwn i ymgeiswyr yng Nghymru yn seiliedig ar ymchwil helaeth CaSE i agweddau'r cyhoedd at Y&D, gan gynnwys arolwg cenedlaethol gynrychioliadol o 1,626 o oedolion yng Nghymru yn 2026.

# Pam siarad â'ch etholwyr am Y&D?

Mae pobl yng Nghymru eisiau gweld eu cynrychiolwyr yn cymryd camau i gefnogi Y&D yn lleol ac yn genedlaethol.

**74%** — **Byddai 74% o blaid eu AS yn ymgyrchu dros fwy o Y&D i wella profiad, diagnosis a thriniaeth cleifion y GIG**

**54%** — **Byddai 54% o blaid eu AS yn ymgyrchu dros fwy o gefnogaeth gan y llywodraeth i fusnesau Y&D yng Nghymru**

**62%** — **Byddai 62% o blaid eu AS yn hyrwyddo prifysgolion Cymru i'w helpu i ddenu cyllid ymchwil ac ymchwilwyr talentog**

**53%** — **Byddai 53% o blaid eu AS yn hymgyrchu dros greu mwy o swyddi Y&D yn eu hardal leol**

**57%** — **Byddai 57% o blaid eu AS yn ymgyrchu dros fwy o Y&D i wella cynaliadwyedd amgylcheddol a bioamrywiaeth yng Nghymru**

Eisiau gwybod am agweddau yn eich etholaeth? Dysgwch fwy drwy ddefnyddio canlyniadau Atchweliad Aml-lefel ac Ôl-haenu CaSE.

CaSE Public Attitudes to R&D in Scotland and Wales 2026



# Sut allwch chi helpu Y&D yng Nghymru i ffynnu?

- Siaradwch ag etholwyr a dechreuwch sgwrs am yr hyn y mae Y&D yn ei olygu i'ch ardal chi.
- Ymgysylltwch â sefydliadau ymchwil yn eich ardal chi i weld Y&D ar waith – gallai hyn olygu ymweld â busnes Y&D, canolfan ymchwil, elusen, neu brifysgol.
- Ymrwymwch i gefnogi Y&D yn y Senedd nesaf.

**Darllenwch 'mlaen i ddysgu sut y gallwch chi weithredu.**

Os hoffech chi siarad â CaSE am sut y gall Y&D helpu eich ardal i ffynnu, cysylltwch ag: **election@sciencecampaign.org.uk**

CaSE Campaign for Science and Engineering

# Mae pobl yng Nghymru...

## Eisiau gwybod mwy am Y&D

Mae wyth o bob 10 person wedi clywed am Ymchwil a Datblygu a byddai gan 53% ddiddordeb mewn clywed am Y&D yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai.

## Yn ystyried Y&D yn ased i'w cymunedau

Byddai'r rhan fwyaf (60%) yn falch pe bai eu hardal yn dod yn adnabyddus fel canolfan Y&D bwysig yng Nghymru a byddai hanner (49%) o blaid adeiladu labordy Y&D yn eu hardal.

## Eisiau gweld buddsoddiad Y&D parhaus

Mae hanner (50%) o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu neu gynnal faint o arian cyhoeddus y mae'n ei fuddsoddi mewn Y&D yng Nghymru.

## Yn gwerthfawrogi buddsoddiad Y&D, waeth beth fo'u tueddiadau gwleidyddol

Mae mwyafrif cadarn o'r farn ei bod hi’n bwysig i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn Y&D, waeth pa blaid wleidyddol maen nhw'n bwriadu pleidleisio drosti.

## Eisiau i'r holl sector Y&D gael ei gefnogi

Mae tua dwy ran o dair o'r farn y dylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru gefnogi ymchwil a gynhelir ym mhrifysgolion a sefydliadau ymchwil Cymru (68%) a denu cwmnïau ymchwil amlwladol blaenllaw i ddod â chanolfannau a swyddi Y&D i Gymru (66%).

CaSE Public Attitudes to R&D in Scotland and Wales 2026



## Ydych chi'n barod i ddechrau sgwrs gyda'ch etholwyr am Y&D?

Mae siarad am bwrpas Y&D, ble mae'n digwydd, a sut y gall pobl gymryd rhan yn ffyrdd pwerus o gysylltu â'r cyhoedd.

Mae gan CaSE ystod o adnoddau ymarferol i'ch helpu chi.

Darganfyddwch ein pecyn cymorth eiriolaeth

# Cefnogi Y&D yn y Senedd

Byddwch yn hyrwyddwr ac annog Llywodraeth nesaf Cymru i gefnogi Y&D. Er mwyn i Y&D gyflawni cymaint o fanteision economaidd a chymdeithasol â phosibl yng Nghymru, mae angen...

## Buddsoddiad

Buddsoddiad Y&D parhaus gyda chefnogaeth drawsbleidiol gydlynol

## Pobl


Gweithlu Y&D medrus sy'n cefnogi'r genhedlaeth nesaf o swyddi a diwydiannau

## Cysylltiadau

System Y&D ffyniannus, gysylltiedig, eangfrydig sy’n adeiladu ar gryfderau lleol ledled Cymru gyfan

## Cefnogaeth

Amgylchedd cefnogol i fusnesau, entrepreneuriaid ac ymchwilwyr arloesol yng Nghymru



# Dysgwch am y gwaith y mae sefydliadau Y&D yn ei wneud yng Nghymru

Mae gan Gymru gyfoeth o ragoriaeth mewn Y&D, gyda sefydliadau ledled y wlad yn helpu i ddeall ein byd yn well, mynd i'r afael â heriau mwyaf cymdeithas, ac ennyn diddordeb gwahanol gynulleidfaoedd. Gall CaSE eich helpu i gysylltu â nhw.

Bu ymchwil barn gyhoeddus newydd CaSE yng Nghymru yn bosibl diolch i noddwyr ein prosiect. Cysylltwch â ni i ddysgu mwy am yr Y&D maen nhw'n ei wneud sut mae hyn o fudd i chi a'ch cymuned: election@sciencecampaign.org.uk

British Heart Foundation Cymru

CANCER RESEARCH UK

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

CATAPULT Compound Semiconductor Applications

UKCEH Our planet. Decoded.

## Ynglŷn â CaSE

Mae Campaign for Science and Engineering (CaSE) yn elusen amhleidiol a'r prif lais annibynnol dros Y&D yn y DU. Fe'i cefnogir gan aelodaeth amrywiol gan gynnwys busnesau, prifysgolion, cyrff proffesiynol, elusennau ymchwil, ac unigolion.

Mae CaSE yn cydweithio ag aelodau, partneriaid a'r cyhoedd i roi llais clir, arbenigol i benderfyniadau ar Y&D. Mae'n arbenigo mewn datblygu atebion amhleidiol, ymatebol sy'n helpu ymchwil ac arloesedd i ffynnu mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau a bywoliaethau pobl.

www.sciencecampaign.org.uk

Rhif elusen: 1147492